**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Chwefror 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Mawrth 2020 |

## PWNC

Eitem 6:YSGOL LLANAELHAEARN

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd derbyn y sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ynghyd a chytuno i:

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plennydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
iii. Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd, i Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr neu Ysgol Chwilog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol Cyngor Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 4 Mehefin ble penderfynwyd rhoi caniatâd i'r adran gynnal cyfarfodydd ffurfiol a'r Llywodraethwyr a budd-ddeiliaid i drafod opsiynau posib ar gyfer dyfodol Ysgol Llanaelhaearn.

Yn dilyn y cyfarfodydd hyn penderfynwyd rhoi ganiatâd i ymgynghori statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn yn dilyn cwymp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol. Mae cwymp sylweddol mewn niferoedd wedi bod yn ddiweddar sydd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgwyl ar y gofrestr, a dengys rhagamcanion y bydd cwymp pellach gyda 5 disgybl ar y gofrestr erbyn 2021.

Mae gofyn i'r Cabinet wneud y penderfyniadau yn dilyn ystyried y sylwadau a godwyd yn ystod cyfnod o ymgynghori statudol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ynghyd â'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Chwefror 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Mawrth 2020 |

**PWNC**

Eitem 7:CYNLLUN Y CYNGOR

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Cyngor Gwynedd 2018/23 – Adolygiad 2020/21 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 5 Mawrth 2020 yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- Ychwanegu cymalau yn Adran Dai i nodi beth mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod o ran y broblem sy'n cael ei greu o ran cyflenwad yn sgil y nifer o dai haf sydd yn y sir.
- Addasiadau i drefn gwybodaeth Adran Addysg yn y Cynllun.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cyngor Llawn fabwysiadu Cynllun y Cyngor ar 8 Mawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny mae gwaith o adolygu'r cynnwys wedi ei wneud i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i flaenoriaeth y gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.

Mae angen i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun er mwyn ei argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu ar 5 Mawrth 2020.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Chwefror 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Mawrth 2020 |

**PWNC**

Eitem 8:CYLLIDEB 2020/21

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

a) Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020) y dylid:

   1. Sefydlu cyllideb o £261,837,750 ar gyfer 2020/21 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £187,579,040 a £74,258,710 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.9%.

   2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £44,247,260 yn 2020/21 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

b) Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21. Mae'r setliad grant gan Lywodraeth Cymru yn decach nac a fu mewn blynyddoedd diweddar, ac yn cyfarch lefel chwyddiant, ond nid yw'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol mewn galw am wasanaethau gofal cymdeithasol. Felly, rhaid cymryd rhai penderfyniadau ar gyfuniad o gyflawni detholiad o arbedion a chodi lefel y Dreth Cyngor 3.9% er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Mater i'r Cyngor llawn yw i ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2020/21 ond mae'n ofyniad i'r Cabinet i argymell y gyllideb i'r Cyngor llawn.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Chwefror 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Mawrth 2020 |

**PWNC**

Eitem 9:DEMENTIA GO

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd cyfrannu £200,000 o'r Gronfa Drawsffurfio i ariannu 2 swydd llawn amser (Ym Mhwllheli a Porthmadog) a dwy swydd 7 awr yr wythnos (Yn Nhywyn a Chaernarfon) i barhau i gynnal Cynllun Gwasanaeth Cefnogi Dementia Go yn y Gymuned hyd Mawrth 2022.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned wedi'i sefydlu ers 2016 i gefnogi unigolion sy'n byw a dementia a'u teuluoedd. Ychwanegwyd fod y gwaith yn cael ei wneud drwy weithgareddau mewn 12 canolfan gymunedol ar draws Gwynedd. Gwnaethpwyd gwaith ymgysylltu mawl a mynychwyr i fesur gwerth y Cynllun.

Mae'r adroddiad terfynol ym mynegi fod angen cyfnod hirach o amser i dystiolaethu'r cyswllt rhwng mynychu'r rhaglen Dementia Go a darpariaeth gofal cymdeithasol. O ganlyniad i hyn gofynnwyd am gyfnod estynedig o ddwy flynedd er mwyn cynnal yr ymchwil.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Chwefror 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Mawrth 2020 |

**PWNC**

Eitem 11:CYMDEITHAS DAI PWYLEG

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

1. Gefnogi'r bwriad i ddatblygu cynllun busnes manwl a fyddai'n cynnig opsiynau ar gyfer cynnal y gwasanaethau gofal presennol ar y safle ac ystyried a yw y cyfleusterau ar y safle yn hyfyw ar gyfer y tymor byr a tymor hwy.
2. Yn amodol ar dderbyn achos busnes hyfyw, cynnig cefnogaeth ariannol er mwyn diogelu'r ddarpariaeth gofal a nyrsio ar y safle, tra'n datblygu cyfleustra / adeilad newydd yn amodol ar sicrhau cyfraniad teg gan y Bwrdd Iechyd.
3. Cymeradwyo cais Clwyd Alyn i weithredu yng Ngwynedd fel Cymdeithasol Dai, fel gall y safle neu elfennau o safle Penrhos drosglwyddo i Gymdeithas Tai Clwyd Alyn.
4. Cefnogi'r egwyddor o fenthyca'n ddarbodus, yn amodol ar gael achos busnes manwl boddhaol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gan y Cyngor rôl amlwg yn sicrhau darpariaeth gofal digonol o fewn y sir ac yn sgil hynny i ystyried ymatebion i sefyllfaoedd penodol sydd yn codi

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

The Statutory Officers were consulted to seek their views, which have been included in the report.